

# SL(5)747 - Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Cyllidebau Carbon) (Cymru) (Diwygio) 2021

## Cefndir a Diben

Mae Rhan 2 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ("Deddf 2016") yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru bennu targedau statudol ar gyfer lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru.

Mae Adran 31(1) o Ddeddf 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod cyllidebau carbon ar gyfer pob cyfnod cyllidebol o 5 mlynedd rhwng 2016 a 2050.

Mae'r Rheoliadau hyn:

- yn diwygio'r gyllideb garbon ar gyfer y cyfnod cyllidebol 2021 i 2025 fel ei bod wedi ei chyfyngu i gyfartaledd o 37 y cant yn is (yn lle'r ffigur blaenorol o 33 y cant yn is) na'r waelodlin;
- yn gosod y gyllideb garbon ar gyfer y cyfnod cyllidebol 2026-2030 fel ei bod yn gyfyngedig i gyfartaledd o 58 y cant yn is na'r waelodlin

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhan o gyfres o bedwar offeryn y cyfeirir atynt gyda'i gilydd fel Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Cymru) 2021.

## Gweithdrefn

Cadarnhaol Drafft.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni all Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

## Materion technegol: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

### **1. Rheol Sefydlog 21.2(vi) - ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Mae'r rhaglith Saesneg yn cyfeirio at ddrafft o'r rheoliadau fel a ganlyn: "laid before and approved by a resolution of *the* Senedd Cymru." [*ychwanegwyd pwyslais*]. Mae'n ymddangos mai gwall yw cynnwys y fannod, gan fod Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn cyfeirio at "Senedd Cymru" drwyddi draw, heb "the" o flaen yr enw.



## Rhinweddau: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

### **Cynghorwyr Cyfreithiol**

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

**22 Chwefror 2021**



Senedd Cymru

**Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

—

Welsh Parliament

**Legislation, Justice and Constitution Committee**